

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441

Ffacs: 01267 238317

E-bost: mail@utk.co.uk

Telephone: 01267 237441

Fax: 01267 238317

E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society **Accredited**

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif: 2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif: 471940

Cofrestriad Cyntaf Gwirfoddol



www.utk.co.uk

DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH

Beth mae hyn yn ei olygu i chi

Os prynoch eich eiddo cyfredol cyn y 1af o Ragfyr 1988, mae'n bosibl iawn nad yw wedi cael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir.

Dim ond 60% o'r tir yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir ar hyn o bryd.

Mae'r Llywodraeth a'r Gofrestrfa Tir yn annog perchnogion tir anghofrestredig i gofrestru eu tir gyda'r Gofrestrfa Tir.

O ganlyniad mae fwyfwy o bobl yn dewis cofrestru eu heiddo.

Mae'r Llywodraeth wedi mynegi ei bod yn dymuno gweld pob eiddo yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cofrestru erbyn fel rhan o'r broses e-drosglwyddo.



Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnig gostyngiad o 25% ar ei ffioedd ar gyfer cofrestrïadau cyntaf gwirfoddol ar hyn o bryd er mwyn annog pobl i gofrestru eu heiddo cyn dyddiad targed y Llywodraeth.

Er nad yw'n orfodol i chi gofrestru eich tir hyd nes y bydd yn cael ei werthu, ei roi i ffwrdd neu'i forgeisio, mae nifer o fanteision ynghlwm â chofrestru gwirfoddol fydd yn dod â thawelwch meddwl i chi:

- Bydd y Gofrestrfa Tir yn gwarantu eich teitl
- Bydd yn rhwystro trydydd parti rhag hawlio eich tir
- Bydd teitl eich eiddo yn cael ei gywasgu ar un ddogfen sengl a'i storio'n electronig yn y Gofrestrfa Tir
- Ni fydd angen gweithredoedd papur, ac felly ni fydd angen storio dogfennau swmpus naill ai gennych chi, eich banc neu eich Cyfreithiwr.

I ddarganfod sut y gall UKT eich cynorthwyo, dewch i siarad ag un o'n cyfreithwyr sy'n arbenigo mewn eiddo.

